COLEG CAMBRIA

# CYRSIAU PROFFESIYNOL **RHAN-AMSER** **2025-26**

www.cambria.ac.uk
0300 30 30 007

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 03 |
| Sut i Wneud Cais | 04 |
| Cyngor a Chymorth | 05 |
| Llyfrgell a Sgiliau Academaidd | 06 |
| Cyfrif Dysgu Personol / ReAct+ | 07 |
| Twf Swyddi Cymru+ | 28 |
| Canolfan Brifysgol Cambria | 29 |
| Prentisiaethau | 30-31 |
| Dysgu Cymraeg | 32 |
| **CYRSIAU** | **08-27** |
| Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau | 08 |
| Addysgu, Asesu ac Addysg | 08 |
| Adnoddau Dynol - CIPD | 10 |
| Amaethyddiaeth ac Amaethyddiaeth Fanwl Gywir | 09 |
| Annog a Mentora | 10 |
| Busnes, Arwain a Rheoli | 11 |
| Gweithdai Byr | 12 |
| Cerbydau Modur | 13 |
| Coedwigaeth a Chefn Gwlad | 14 |
| Cyfrifeg (AAT) | 14 |
| Cynaliadwyedd, Cadwraeth a'r Amgylchedd | 15 |
| Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid | 17 |
| Gofal Plant, Astudiaethau Plentyndod a Gwaith Chwarae | 17 |
| Gweithgynhyrchu Bwyd | 18 |
| Gwneuthuro a Weldio | 19 |
| HN Flex | 18 |
| Iechyd a Diogelwch IOSH & NEBOSH | 20 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 21 |
| Iechyd Meddwl | 21 |
| Lletygarwch ac Arlwyo | 22 |
| Mynediad i AU | 24 |
| Peirianneg, Gweithgynhyrchu a Chynnal a Chadw | 25 |
| Rheoli Prosiectau PRINCE2 | 24 |
| Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG | 26 |
| Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion | 26 |
| Therapïau Harddwch, Sba a Chyflenwol | 27 |


COLEG CAMBRIA

**0300 30 30 007**

**www.cambria.ac.uk**

Mae'r holl wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi.

# Croeso i Goleg Cambria

COLEG CAMBRIA

**Mae Coleg Cambria yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi a chyrsiau proffesiynol i'ch galluogi chi i wella'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch cymwysterau presennol ac i feithrin sgiliau newydd ar gyfer gwaith.**

**Rydym hefyd yn darparu addysg i oedolion ac yn y gymuned, yn ogystal â chyrsiau Sgiliau i Oedolion mewn ystod o bynciau ar bum safle'r coleg ac mewn lleoliadau cymunedol yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych.**

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau rhan-amser, min nos ac ar benwythnosau yng Ngholeg Cambria. Bydd arbenigwyr byd diwydiant yn eich addysgu, i sicrhau eich bod yn cael y profiadau dysgu gorau i'ch helpu i lwyddo. Mae ein rhaglenni hyblyg i oedolion wedi cael eu llunio gyda mewnbwn cyflogwyr i roi'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni anghenion y diwydiant yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio'n barhaus i ehangu ein hystod o gyrsiau, felly cofiwch edrych ar ein gwefan i weld y rhai diweddaraf.

**Fel dysgwr rhan-amser, cewch ddefnyddio ein cyfleusterau rhagorol gan gynnwys llyfrgelloedd llawn cyfarpar a gweithdai safon diwydiant.**

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfrif Dysgu Personol

Pearson

mental health first aid wales

Prentisiaethau Apprenticeships

dysgucymraeg.cymru learnwelsh.cymru

ICDL

City & Guilds Believe you can

aat Approved

nebosh LEARNING PARTNER GOLD 246

ilm

EAL

CIPD Platinum centre

iosh

PRINCE2 ACCREDITED TRAINING ORGANIZATION PeopleCert ON BEHALF OF AXELOS

LANTRA AWARDS APPROVED

# Sut i
# Wneud Cais

## COFRESTRWCH RŴAN

**Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol ar gyfer nifer o’n cyrsiau, felly gallwch chi gofrestru ar-lein neu dros y ffôn ar unwaith. Ewch i’n gwefan i gael y manylion.**

## YMWELD Â NI

**Dewch i ymweld â’r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ar un o safleoedd Coleg Cambria sydd wedi’u rhestru isod:**

### IÂL A CHWECHED IÂL

Ffordd Parc y Gelli, Wrecsam, LL12 7AB
Dydd Llun - Dydd Iau 8:00am - 5:00pm
Dydd Gwener 8:00am - 4:30pm

### FFORDD Y BERS

Wrecsam, LL13 7UH
Dydd Llun - Dydd Iau 8:30am - 4:30pm
Dydd Gwener 8:30am - 4:00pm

### GLANNAU DYFRDWY

Ffordd Celstryn,
Cei Connah, CH5 4BR
Dydd Llun - Dydd Iau 8:00am - 5:00pm
Dydd Gwener 8:00am - 4:30pm

### LLYSFASI

Ffordd Rhuthun, Rhuthun, LL15 2LB
Dydd Llun - Dydd Iau 8:30am - 4:30pm
Dydd Gwener 8:30am - 4:00pm

### LLANEURGAIN

Ffordd Treffynnon, Llaneurgain, CH7 6AA
Dydd Llun - Dydd Iau 8:30am - 4:30pm
Dydd Gwener 8:30am - 4:00pm

Sylwch: Gall amseroedd agor amrywio dros hanner tymor a gwyliau.

**CLICIWCH YMA**
**i weld ein cyfleusterau hygyrch**











Darganfyddwch ein cyrsiau wedi’u hariannu’n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07

# Cyngor a Chymorth

## CYNHWYSIANT

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae pob un o'n safleoedd yn hygyrch. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at:

**cymorth.dysgu@cambria.ac.uk** neu **cydraddoldebacamrywiaeth@cambria.ac.uk**

## Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)

Bydd angen i chi gwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rhai cyrsiau. Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau lle bydd cyswllt rheolaidd heb oruchwyliaeth â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

## YDYCH CHI DAN 16 OED?

Sylwch: Oherwydd y ffordd y mae cyllid y llywodraeth yn ariannu llawer o'n cyrsiau (ni allwn ei hawlio ar gyfer plant dan 16 oed), efallai bydd rhaid i ni godi ffi ychwanegol ar gyrsiau i fyfyrwyr dan 16 oed ar 1 Medi 2025. Bydd yn ofynnol i riant neu warcheidwad ddod i ddosbarthiadau gyda phlant dan 16 oed er mwyn eu diogelu, a bydd rhaid iddynt dalu ffi safonol y cwrs hefyd.

## DYSGU YN GYMRAEG

Gellir asesu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH FFONIWCH Y GWASANAETHAU MYFYRWYR AR 0300 30 30 007**
**gwasanaethaumyfyrwyr@cambria.ac.uk**

## FFIOEDD A CHYMORTH ARIANNOL

Mae'r ffioedd a nodwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf o astudio'n unig. Ar gyfer cyrsiau dwy neu dair blynedd, bydd angen talu'r ffi unwaith eto ar ddechrau eich ail a thrydedd flwyddyn astudio.

Bydd angen llythyr cytundeb i dalu am eich cwrs neu archeb brynu arnoch os ydy eich cwmni yn talu ffi eich cwrs.

## GALLWCH DALU GYDAG:

- Arian parod
- Siec
- Cerdyn credyd neu ddebyd
- Archeb brynu gan gyflogwr

Mae ffioedd cwrs dros £400 yn gymwys ar gyfer rhandaliadau - mae dysgwyr yn talu 25% wrth gofrestru a thri thaliad debyd uniongyrchol dilynol o 25%.

Os ydy hyd y cwrs yn 10 wythnos neu lai, rhaid i fyfyrwyr dalu'n llawn wrth gofrestru.

Rhaid i unrhyw gynlluniau talu gohiriedig gael eu cytuno a'u llofnodi gan y myfyriwr ac aelod o staff y coleg cyn cofrestru a dechrau dosbarthiadau.

Nid ydy rhandaliadau ar gael i ddysgwyr sydd wedi'u tynnu'n ôl o gwrs am beidio â thalu ffioedd.

*Rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y manylion yn y canllaw yn gywir adeg ei argraffu. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau a gwelliannau i ddarpariaeth ein cyrsiau a manylion eraill yn y cyhoeddiad hwn. Pan fydd hynny'n ymarferol, byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau cyn dyddiadau dechrau'r cyrsiau, ond nid yw'r coleg yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am roi unrhyw rybudd penodol o newidiadau o'r fath.

# Llyfrgell a Sgiliau Academaidd

Fel myfyriwr Coleg Cambria, byddwch chi'n gallu defnyddio ein llyfrgelloedd llawn cyfarpar. Mae gennym ni ystod eang o adnoddau ar-lein gan gynnwys llwyfannau ymchwil ac e-lyfrau. Gallwn ni hefyd gynnig cymorth sgiliau academaidd 1:1 ar gyfer eich astudiaethau.

Am ragor o wybodaeth galwch i mewn i'r llyfrgell ar eich safle neu anfonwch e-bost atom ni, a bydd ein tîm cyfeillgar yn hapus i'ch helpu.

**llyfrgell@cambria.ac.uk**

## Ydych chi am ddysgu sgiliau newydd a chyfarfod pobl?




Ewch i weld ein **Canllaw Cyrsiau Hobi a Hamdden Rhan-amser** ar-lein

neu dewch i nôl copi o unrhyw safle Coleg Cambria

**CLICIWCH YMA**
**i weld ein Canllaw Hobïau a Hamdden 2025-26**

## NEWIDIWCH EICH GYRFA GYDA

# Chyfrif Dysgu Personol

Cyfrif Dysgu Personol

**Nod y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (PLA) yw rhoi cefnogaeth am ddim* i chi ennill sgiliau lefel uwch, i gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd gwaith ar lefel uwch mewn sectorau blaenoriaeth.**

## BETH YW CYFRIF DYSGU PERSONOL?

Os ydych dros 19 oed ac yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth (gan gynnwys mewn perygl o gael eich diswyddo a charcharorion ar ôl cael eu rhyddhau am ddiwrnod) gan ennill llai na'r incwm canolrifol o £32,371 y flwyddyn*, mae Cyfrif Dysgu Personol yn ffordd wych o gael mynediad at astudiaethau rhan-amser ar gyrsiau penodol.

**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

**pla@cambria.ac.uk**
**0300 30 30 006**

*yn amodol ar gymhwysedd

# REACT+

**Mae ReAct+ yn cynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur drwy gael gwared ar rwystrau a darparu cymorth grant ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a gofal (gan gynnwys gofal plant) sy'n gysylltiedig â hyfforddiant.**

Rhaglen grant yw ReAct+ sy'n adeiladu ar lwyddiant rhaglenni'r gorffennol ac mae'n cyfrannu at Warant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru.

**Pa gymorth sydd ar gael?**

- Grant hyfforddiant galwedigaethol o hyd at £1,500
- Grant Cymorth Ychwanegol, i helpu gyda threuliau fel teithio a llety hyd at £200
- Help gyda chostau gofal a gofal plant cofrestredig tra'n hyfforddi hyd at £2,100

**Cymhwysedd**

Er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth ReAct+ rhaid eich bod yn 20 oed neu'n hŷn, yn byw yng Nghymru ac yn un o'r canlynol:

- **Wedi cael hysbysiad colli swydd ffurfiol**
- **Wedi colli swydd o fewn y 6 mis diwethaf**
- **Cwsmeriaid yn yr ystâd ddiogel (carchar)**
- **Cyn-droseddwr wedi ei ryddhau o fewn y 6 mis diwethaf**
- **Troseddwr yn treulio ei ddedfryd yn y gymuned - dim ond o fewn 6 mis cyntaf ei ddedfryd y mae cyllid yn gymwys ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu cynnal**

I weld y rhestr ddiweddaraf o gyrsiau ac i wneud cais, anfonwch e-bost at **react@cambria.ac.uk**
Neu ffoniwch i siarad ag aelod o'r tîm: **0300 30 30 006**

Llywodraeth Cymru sy'n ariannu pob cwrs Cyfrif Dysgu Personol a ReAct+.

# Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau

**Mae adeiladu yn faes sy'n newid ac yn cynyddu o hyd. Roedd unwaith yn waith sy'n seiliedig ar grefft, ond bellach mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n ddiwydiant modern sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd digidol, dylunio a chynaliadwyedd hefyd. Gyda sawl ffocws, mae swyddi yn y sector yn eang, o ddysgu crefft i reoli safleoedd neu brosiectau, dehongli dyluniadau i gadw at safonau cynaliadwyedd.**

Bydd cymwysterau yng Ngholeg Cambrig yn agor llond y lle o bosibiliadau i chi. Mae gennym diwtoriaid profiadol, cysylltiadau â chwmnïau lleol a rhyngwladol, a chyfleoedd profiad gwaith di-rif i wneud i chi sefyll allan i ddarpar gyflogwyr a'ch rhoi ar ben ffordd at yrfa lwyddiannus ym maes adeiladu.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Rheoliadau Gwifro 18fed Argraffiad |
| Gweithiwr Profiadol Electrodechnegol Lefel 3 |
| Cymhwyster Lefel 3 mewn Dilysu Dechreuol ac Ardystio Gosodiadau Trydan (2391-50) |
| Cymhwyster Lefel 3 mewn Archwilio a Phrofi Cyfnodol Gosodiadau Trydanol (2391-51) |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Addysgu, Asesu ac Addysg

**Ydych chi'n dymuno addysgu ac ymrymuso'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr? Bydd ein cymwysterau'n rhoi popeth sydd ei angen arnoch chi i lwyddo yn y sector addysg a dod yn hoff hyfforddwr i bawb.**

Bydd ein tiwtoriaid yn dangos i chi sut i gynorthwyo pob un o'ch darpar fyfyrwyr a'u dysgu, ni waeth ar ba lefel y byddwch yn penderfynu addysgu.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Cyflwyniad i Sgiliau'r Hyfforddwr |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant |
| Tystysgrif Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**




**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Amaethyddiaeth ac Amaethyddiaeth Fanwl Gywir

**Hoffech chi newid gyrfa ac ymuno ag un o'r diwydiannau pwysicaf, fwyaf deinamig yn y byd? Efallai eich bod am ddatblygu gyrfa bresennol yn y maes gyda chymhwyster newydd. Y naill ffordd neu'r llall, mae cyrsiau Amaethyddiaeth ac Amaethyddiaeth Fanwl Gywir yn berffaith i chi. Bydd ein rhaglenni amrywiol yn eich ysbrydoli i lwyddo wrth ennill y sgiliau technegol, gwyddonol ac ymarferol angenrheidiol i gael gyrfa yn y maes hwn.**

Ni waeth pa swydd rydych chi ei heisiau ar ôl eich amser gyda ni, bydd ein tiwtoriaid yn defnyddio eu profiad a'u hangerdd i'ch cael chi yno.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gyrru Tractorau Amaethyddol a Gweithrediadau Perthnasol |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Trin Cerbydau Eistedd Arnynt Pob Tir |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gweithrediadau Fforch Godi'r Tir |
| Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Croes Torri a Thorri a Phrosesu Coed Hyd at 380mm |
| Elite Wool Industry Training UK - Cwrs Cneifio i Ddechreuwyr |

# Adnoddau Dynol - CIPD

**Mae ein cyrsiau CIPD ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes adnoddau dynol a phersonél, ac yn cael eu haddysgu gan diwtoriaid cwbl gymwys gyda llawer o brofiad yn y diwydiant. Datblygwch eich gyrfa a chael effaith ar newid yn eich sefydliad:**

- **Hybu eich potensial i ennill cyflog a'ch rhagolygon gyrfa.**
- **Dewis arddull dysgu sy'n addas i'ch ffordd chi o fyw.**
- **Rhoi eich dysgu ar waith yn y gwaith ar unwaith.**
- **Cyfrannu tuag at lwyddiant cynaliadwy eich sefydliad.**

CIPD

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Tystysgrif Sylfaen Lefel 3 CIPD mewn Arferion Pobl |
| Diploma Cysylltiol Lefel 5 CIPD mewn Rheoli Pobl |




# Annog a Mentora

**Mae galw mawr am sgiliau annog. Yn y ddegawd ddiwethaf, mae mwy a mwy yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae sgiliau annog yn eu cael ar fusnesau. Gall fod yn effeithiol wrth reoli tîm trwy newid hefyd, gan leihau effaith cynyddol pwysau ac ansicrwydd trwy gynyddu eu gallu i addasu a'u hunanhyder.**

Mae ein hystod o gymwysterau annog wedi eu llunio i ddatblygu sgiliau annog ystwyth. Bydd yn eich helpu i ddatgloi potensial unigolion a thimau trwy fagu eu hunanhyder, gwella eu perfformiad gwaith a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Dyfarniad Lefel 2 ILM mewn Sgiliau Mentora Effeithiol |
| Tystysgrif Lefel 3 ILM mewn Annog a Mentora |
| Tystysgrif Lefel 5 ILM mewn Annog a Mentora Effeithiol |






**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Busnes, Arwain a Rheoli

**Ydych chi eisiau eich dewis o gyfleoedd gyrfa amrywiol, cyffrous a gwerth chweil ar draws diwydiannau gwahanol? Os felly, gallai Busnes, Arwain a Rheoli fod yn ddelfrydol i chi.**

Mae gennym gysylltiadau cadarn â busnesau go iawn, ac rydym yn defnyddio sefyllfaoedd busnes profedig a phrofiadau gwaith i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus. Nid yn unig rydym yn creu perchnogion busnes ac arweinwyr y dyfodol, rydym yn helpu'r rhai sydd eisoes ar y llwybr hwnnw i wthio eu hunain hyd yn oed ymhellach yn y diwydiant hwn.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Dyfarniad Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Aelod Effeithiol o Dîm |
| Tystysgrif Lefel 2 Skillsfirst mewn Cynhwysiant LHDT yn y Gweithle |
| Dyfarniad/Tystysgrif Lefel 2 ILM mewn Sgiliau Tîm ac Arwain |
| Dyfarniad/Tystysgrif Lefel 3 ILM mewn Arwain a Rheoli |
| Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 4 ILM mewn Arwain a Rheoli |
| Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 5 ILM mewn Arwain a Rheoli |

# Gweithdai Byr

**Oes angen awgrymiadau arbenigol arnoch chi ar faterion allweddol arwain, rheoli neu adnoddau dynol? Neu oes angen datrysiadau busnes cyflym sy'n hawdd i'w deall a'u gweithredu?**

Wedi eu lleoli yn ein Hysgol Fusnes Cambria yn Llaneurgain, rydym yn cynnig ystod o gyrsiau hanner diwrnod a diwrnod llawn sydd wedi eu teilwra i'ch gofynion. O reoli cyfarfodydd i feithrin tîm i wasanaethau effeithiol i gwsmeriaid, gall ein tîm profiadol eich helpu beth bynnag fo'ch anghenion.

Mae cyrsiau ar gyfer darpariaeth ar safle neu ar-lein hefyd ar gael ar gais.

**RYDYM YN CYNNIG CYRSIAU WEDI EU TEILWRA TRWY GYDOL Y FLWYDDYN.**

Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion:

**cyflogwyr@cambria.ac.uk**
**0300 30 30 006**



iâl SALON

## Mwynhewch ychydig o foethusrwydd i'ch gwallt

01978 267650 | www.ialsalon.co.uk

**TAPIWCH NEU CLICIWCH YMA i ymweld â'r wefan**

Coleg Cambria Iâl
Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam LL12 7AB

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol







Darganfyddwch ein cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Cerbydau Modur

**Mae peirianneg cerbydau modur yn yrfa hynod fedrus ac mae galw mawr amdani, ac yma yng Ngholeg Cambria byddwn ni'n sicrhau eich bod chi wedi'ch arfogi ar gyfer unrhyw weithle a'ch bod chi'n gallu meddwl yn gyflym. Byddwch chi'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn cael eich addysgu gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant a fydd yn datblygu eich sgiliau mewn gwasanaethau cerbydau, hyfforddiant diagnostig ac aerdymheru.**

Rydyn ni'n falch iawn o fod yn un o'r canolfannau hyfforddiant cerbydau modur mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnig cyrsiau cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau ar bob lefel gan gynnwys cymwysterau gosod cyflym a cherbydau hybrid.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Hyfforddiant Profwr MOT Dosbarthiadau 4-7 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Trydan a Hybrid yn Ddiogel |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Tynnu Cydrannau a'u Hamnewid mewn Cerbydau Trydan a Hybrid |
| Dyfarniad Lefel 4 mewn Gwneud Diagnosis Namau Mewn Cerbydau Trydan a Hybrid a'u Cywiro |
| Dyfarniad Lefel 4 mewn Gwneud Diagnosis Namau Mewn Cerbydau Trydan a Hybrid a'u Cywiro |

# Coedwigaeth a Chefn Gwlad

**Os ydych chi wrth eich bodd yn yr awyr agored, sefyll o dan ganopi o goed neu gerdded dros lawr coetir wedi'i orchuddio â mwsogl, yna mae ein rhaglen Goedwigaeth ar eich cyfer chi. Rydym wedi ein lleoli yn harddwch Dyffryn Clwyd, sy'n lleoliad naturiol perffaith ar gyfer gwaith ymarferol gyda bywyd gwyllt.**

Nid yn unig hynny, ond byddwch yn cael cyfle i astudio a gweithio gydag amrywiaeth eang o gynefinoedd a safleoedd gan gynnwys coetiroedd, rhosydd a rhostiroedd yn amrywio o'r arfordir i gopaon mynyddoedd yn ystod eich amser yng Ngholeg Cambria. P'un a ydych am weithio ym maes cadwraeth, rheoli ystadau gwledig a chefn gwlad, coedwigaeth neu unrhyw beth o'r fath, dyma'r lle i chi astudio ynddo.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Croes Torri a Thorri a Phrosesu Coed Hyd at 380mm |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gweithrediadau Fforch Godi'r Tir |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gweithrediadau Fforch Godi'r Tir |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Cyfrifeg - Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT)

**AAT yw corff proffesiynol blaenllaw'r Deyrnas Unedig sy'n cynnig cymwysterau cyfrifeg a chyllid. Mae eu cymwysterau yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gyflogwyr fel cymwysterau galwedigaethol a thechnegol sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle ac ar gyfer gweithio'n benodol mewn swyddi cyfrifeg a chyllid.**

aat

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Tystysgrif Sylfaen Lefel 2 AAT mewn Cyfrifeg |
| Diploma Uwch Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg |
| Diploma Proffesiynol Lefel 4 AAT mewn Cyfrifeg |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**



Darganfyddwch ein cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07

# Cynaliadwyedd, Cadwraeth a'r Amgylchedd

**Ydych chi'n angerddol am yr amgylchedd? Ydych chi eisiau archwilio'r rhyngweithiadau rhwng anifeiliaid, planhigion, pobl a'r byd cyfoes rydyn ni'n byw ynddo? Os felly, mae Cynaliadwyedd, Cadwraeth a'r Amgylchedd i chi.**

Un blaned yn unig rydyn ni'n ei chael, ac mae angen i ni ei hamddiffyn. Byddwch chi'n gweithio mewn sector gwirioneddol gwerth chweil ar ôl i chi ennill y cymwysterau yma, sector sydd wedi'i arwain gan bryderon newid hinsawdd ac angen am arferion sy'n fwy cynaliadwy.


| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
| --- |
| Rheoli'r Amgylchedd NEBOSH |
| Diploma Rheoli'r Amgylchedd NEBOSH (Lefel 6) |
| Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd NEBOSH |
| Rheoli Cynaliadwyedd IOSH |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

Wedi'i lleoli yn ein Canolfan Gosmetoleg Cambria sydd newydd ei hadnewyddu, mae ein Salon Gosmetoleg yn cynnig dewis gwych o driniaethau gwallt a harddwch

**SALON GOSMETOLEG**
**COSMETOLOGY SALON**



**O dorri gwallt i liw newydd sbon, o siapio aeliau i dylino meinwe dwfn, rydyn ni eisiau i chi adael yn teimlo'n wych o'ch corun i'ch sawdl.**

I drefnu apwyntiad neu ar gyfer ymholiadau, ffoniwch **01978 267006** neu e-bostiwch **cosmetology@cambria.ac.uk**

**Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol**

**CLICIWCH YMA**
**i weld y wefan Meithrinfa Toybox**



## Mae ein meithrinfa'n darparu lleoedd llawn amser a rhan-amser ar gyfer staff, myfyrwyr a'r cyhoedd.

Rydyn ni'n cynnig gofal plant o safon wych yma ym Meithrinfa Toybox, gan sicrhau bod rhieni a phlant yn dod i amgylchedd sy'n groesawgar a chyfeillgar, gyda gofal ac addysg o'r safon uchaf. Mae gennym ni'r ddarpariaeth i ofalu am blant ag anghenion ychwanegol.

Gyda lleoliad sy'n darparu addysg a gofal i blant 3 mis oed i bump oed, mae'n bwysig deall ein bod yn gweld pob grŵp oedran fel cam tuag at eu paratoi nhw ar gyfer eu dyfodol.

**I ddysgu rhagor ewch i toybox-nursery.cambria.ac.uk**
**toybox@cambria.ac.uk | 01978 267159**



Darganfyddwch ein cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07

# Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid

**Os ydych chi'n dymuno gofalu am anifeiliaid bob dydd, mae cyrsiau Gofal Anifeiliaid Coleg Cambria yn ddelfrydol i chi. Mae Canolfan Gofal Anifeiliaid Llaneurgain yn gartref i fwy na 200 o anifeiliaid, o ystod eang o rywogaethau cyffrous o infertebratau, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, adar a mamaliaid.**

Rhowch hwb i yrfa fendigedig gydag anifeiliaid mewn cyfleusterau trawiadol gyda'n tiwtoriaid profiadol. P'un a ydych am weithio mewn practis milfeddygol, neu fod yn swolegydd, gallwch ddod o hyd i'r cyfle perffaith yng Ngholeg Cambria Llaneurgain.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Tystysgrif Lefel 2 i Gymhorthwyr Twtio Cŵn |




**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Gofal Plant, Astudiaethau Plentyndod a Gwaith Chwarae

**Ydych chi wrth eich bodd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau plant? Yna gallai gyrfa yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig fod i chi. Gallwch chi ddysgu'n uniongyrchol sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu a dysgu ar sawl lefel wahanol gan gynnwys gofal plant, meithrinfeydd, addysg, neu wrth wneud gwaith ieuenctid neu waith elusennol.**

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Dablygiad Plant: Craidd |
| Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (Oedolion) |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Gweithgynhyrchu Bwyd

**Paratowch ar gyfer swydd yn y diwydiant bwyd gyda'n cyrsiau Gweithgynhyrchu Bwyd. Bydd ein tiwtoriaid cefnogol a gwybodus yn sicrhau eich bod yn ennill amrywiaeth eang o sgiliau sydd eu hangen arnoch i ragori.**

Bydd Gweithgynhyrchu Bwyd yn addas i chi p'un a yw'n gwbl newydd i chi, neu os ydych am ehangu eich galluoedd presennol, efallai i gefnogi aml-sgiliau neu i ddatblygu i feysydd fel sicrwydd ansawdd neu weithrediadau labordy. Ni waeth lle rydych o fewn eich gyrfa, byddwn yn eich helpu i gyflawni eich nodau.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
| --- |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymwybyddiaeth o Alergenau Bwyd a'u Rheoli mewn Arlwyo (RQF) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Systemau Diogelwch Bwyd HACCP mewn Gweithgynhyrchu |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# HN Flex

**Mae HN Flex yn gadael i chi ddewis eich ffordd trwy gymhwyster Cenedlaethol Uwch BTEC, gan feithrin sgiliau cydnabyddedig un uned ar y tro - smart, hyblyg, ac wedi'u teilwra i chi.**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o bynciau sy'n cynnig unedau y gallwch chi eu stacio o fewn un cymhwyster Cenedlaethol Uwch BTEC. Mae yna hefyd opsiwn ar gyfer cyfleoedd dilyniant i Dystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (HND), gan ennill Tystysgrif Credyd Uned (CoUC) ar ôl cwblhau'r unedau unigol a gafodd eu hastudio.

**RYDYM YN CYNNIG CYRSIAU WEDI EU TEILWRA TRWY GYDOL Y FLWYDDYN.**

Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion:

**cyflogwyr@cambria.ac.uk**
**0300 30 30 006**






Darganfyddwch ein cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Gwneuthuro a Weldio

**Mae gwneuthuro a weldio yn rhan fawr o beirianneg. Dyma'r broses o greu strwythurau, peiriannau neu gydrannau drwy dorri, siapio a gosod deunyddiau amrywiol i greu cynnyrch terfynol.**

Byddwch yn cael eich addysgu mewn gweithdai arbenigol sy'n debyg i weithleoedd go iawn. Bydd ein tiwtoriaid profiadol yn rhoi'r holl sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy sydd eu hangen arnoch chi i symud eich gyrfa yn ei blaen.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
| --- |
| Dyfarniad Lefel 1 mewn Cyflwyniad i Sgiliau Weldio (MIG) |
| Dyfarniad Lefel 1 mewn Cyflwyniad i Sgiliau Weldio (TIG) |
| Dyfarniad Lefel 1 mewn Cyflwyniad i Sgiliau Weldio (MMA) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Weldio (MIG) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Weldio (MMA) |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Sgiliau Weldio Uwch (MIG/TIG/MMA) |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Iechyd a Diogelwch IOSH a NEBOSH

**Beth am ddatgloi eich potensial a gwella eich gyrfa gyda'n cyrsiau IOSH a NEBOSH. Wedi'u dylunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n chwilio am gyfle i wella eu gwybodaeth iechyd a diogelwch, mae'r cymwysterau hyn sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang, yn rhoi'r sgiliau i chi greu gweithleoedd mwy diogel a lleihau risgiau'n effeithiol.**

P'un a ydych chi ar ddechrau eich gyrfa neu eisiau cynyddu eich profiad, mae ein hyfforddiant arbenigol yn rhoi mewnwelediadau ymarferol a chymwysiadau byd go iawn.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Gweithio'n Ddiogel IOSH |
| Rheoli'n Ddiogel IOSH |
| Tystysgrif Tân FSC2 NEBOSH |
| Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH |
| Rheoli Iechyd a Diogelwch NEBOSH |
| Rheoli Peryglon yn y Gweithle NEBOSH |
| Rheoli Iechyd a Diogelwch ar gyfer Adeiladu (y Deyrnas Unedig) |
| Diploma Lefel 6 NEBOSH |

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Mae'r galw am weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn uwch nag erioed. Mae'r GIG a'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn chwilio am bobl dosturiol sy'n gweithio'n galed i ymuno â nhw. Os yw'n rhywbeth rydych chi'n angerddol amdano, yna mae'n debyg mai gyrfa mewn gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw'r peth i chi.**

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Craidd Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Eiriolaeth Annibyniaeth |




# Iechyd Meddwl

**Yng Ngholeg Cambria, rydym wedi datblygu ystod amrywiol o raglenni iechyd meddwl sy'n mynd i'r afael â sbectrwm eang o anghenion. O gyrsiau sydd â'r nod o roi gwell dealltwriaeth i chi o iechyd meddwl yn y gweithle i lefel uwch, manylach; i gyrsiau a fydd yn rhoi'r holl sgiliau craidd a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch chi wrth ofalu am bobl ag anghenion iechyd meddwl.**

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Rheoli Straen yn y Gwaith NEBOSH |
| Dyfarniad Lefel 2 CACHE mewn Cyflwyniad i Hyrwyddwr Iechyd Gweithleoedd |
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru MHFA |
| Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl |
| Hyfforddiant sy'n Ystyriol o Drawma |





**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Lletygarwch ac Arlwyo

**Mae'r diwydiant gwasanaeth yn ffynnu, ac mae cyfleoedd gwaith di-rif i chi pan fydd gennych chi'r cymwysterau cywir. Gall Coleg Cambria eu rhoi i chi, gyda'n tiwtoriaid sydd â phrofiad o'r diwydiant yn canolbwyntio ar wasanaethau cwsmeriaid, protocolau iechyd a diogelwch, a datblygu eich sgiliau ymarferol proffesiynol. Byddwch yn dysgu sut i baratoi a chreu ystod eang o fwyd, o seigiau lleol clasurol i fwydydd ag ysbrydoliaeth ryngwladol, cacennau, danteithion crwst a rhagor.**

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Cymhwyster Lefel 2 mewn Ymwybyddiaeth o Alergenau Bwyd a'u Rheoli mewn Arlwyo |
| Cymhwyster Lefel 2 mewn Deall Maeth ac Iechyd |
| Dyfarniad Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwydded Bersonol |
| Tystysgrif Lefel 2 mewn Gweithrediadau Lletygarwch Trwyddedig |
| Cymhwyster Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle |
| Dyfarniad Lefel 2 a 3 mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo |



BWYTY
ial
RESTAURANT

01978 548 818
INFO@IALRESTAURANT.CO.UK
WWW.IALRESTAURANT.CO.UK

@IALRESTAURANT

TAPIWCH NEU CLICIWCH YMA i gadw bwrdd

BWYTA MEWN BWYTY CYFOES YN WRECSAM

Dewch i weld eich hoff fwyty newydd




# ALLWCH CHI GYNNIG PROFIAD GWAITH?



Mae lleoliad profiad gwaith yn gyfle byr, di-dâl i brofi "byd gwaith go iawn". Mae'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd ac o fewn sefydliad y mae tîm profiad gwaith Cambria wedi ymgysylltu ag ef.

Dylai lleoliadau profiad gwaith fod yn sylweddol ac yn ystyrlon, gan roi profiad go iawn yn y gweithle. Maen nhw'n gyfle i'r person ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n gysylltiedig â gwaith yn hytrach nag arsylwi yn unig.

## BUDDION

- Rydych chi'n gallu 'profi cyn buddsoddi', os ydych chi mewn lle i recriwtio prentis neu weithiwr newydd.
- Gallwch achub y blaen ar y gystadleuaeth drwy gael pobl ifanc brwdfrydig gyda'u syniadau newydd yn eich busnes cyn iddynt ddechrau yn y byd gwaith.
- Bydd gweithio gyda staff hyfforddiant yn rhoi cyfle i staff profiadol ddatblygu eu sgiliau mewn mentora ac annog pobl ifanc.

**Os ydych chi'n gallu cynnig profiad gwaith, cysylltwch â ni ar | workexperience@cambria.ac.uk | 0300 30 30 006**

# Mynediad i AU

**Mae cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch yng Nghanolfan Brifysgol Cambria yn cynnig llwybr blwyddyn o hyd at astudiaethau lefel gradd. Mae astudio ar gyfer cymhwyster Mynediad yn gallu arwain at yrfa lwyddiannus, gyda llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i brifysgol a dilyn gyrfaoedd newydd na fyddent erioed wedi breuddwydio amdanynt.**

Os wnaethoch chi adael yr ysgol heb y cymwysterau arferol, fel TGAU neu Safon Uwch, yna gallai'r cwrs hwn fod i chi. Mae'r rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch **am ddim** ac maen nhw'n eich paratoi at ragor o astudio yn y dyfodol, p'un a ydych yn chwilio am ffordd i ddechrau yn y byd nyrsio, bydwreigiaeth, peirianneg, addysgu, gwaith cymdeithasol neu blismona, mae gennym rywbeth i chi.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Paratoi ar gyfer Astudio Lefel Uwch |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Rheoli Prosiectau - PRINCE2®

**Beth am drawsnewid eich sgiliau rheoli prosiectau gyda'n cyrsiau PRINCE2*!**

P'un a ydych chi'n weithiwr proffesiynol tymhorol neu ar ddechrau eich taith, mae ein hyfforddiant cynhwysfawr yn rhoi'r offer a'r fethodoleg hanfodol i chi arwain prosiectau at lwyddiant. Gan ganolbwyntio ar gymhwyso ymarferol a senarios byd go iawn, byddwch yn dysgu sut i reoli prosiectau o unrhyw faint yn effeithiol, gan sicrhau darpariaeth brydlon a'r canlyniadau gorau. Beth am ennill ardystiad sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang, sy'n gwella eich rhagolygon gyrfa ac yn eich rhoi ar flaen y gweddill yn y farchnad swyddi gystadleuol. Nid rheoli prosiectau yn unig fyddwch chi - eu meistroli!

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| PRINCE2 Sylfaen |
| Ymarferydd PRINCE2 |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**




**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Peirianneg, Gweithgynhyrchu a Chynnal a Chadw

**Mae peirianneg yn sail i lawer yn rhagor o bethau na mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei sylweddoli. Mae'n rhan fawr o'r cynnyrch rydym yn eu defnyddio bob dydd, a'r amgylcheddau rydym yn byw ynddynt. Mae'n amser gwych i ddechrau yn y diwydiant cyffrous hwn, ac yng Ngholeg Cambria byddwch yn dysgu yng nghyfleusterau hyfforddi mwyaf llwyddiannus y Deyrnas Unedig sy'n arwain y sector; ein Canolfan Rhagoriaeth Peirianneg a Chanolfan Technoleg Peirianneg.**

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Cynnal a Chadw Clyfar a Diwydiant 4.0 |
| Cyflwyniad i Argraffu 3D a CAD |
| Roboteg Ddiwydiannol (1 Diwrnod/3 Diwrnod) |
| Dyfarniad Lefel 3 BTEC mewn Peirianneg |
| Technoleg Synwyryddion Ddiwydiannol a Synwyryddion Clyfar |
| Cyflwyniad i Reolyddion Rhesymeg Rhaglenadwy |
| Ynysu Trydanol |
| HNC Technoleg Drydanol ac Electronig |
| HNC Technoleg Fecanyddol |

# Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG

Cyber First GOLD AWARD COLLEGE

**Ydych chi eisiau annog arloesedd yn y dirwedd ddigidol sy'n datblygu'n gyflym? Beth am fuddsoddi yng ngalluoedd technegol eich gweithlu gyda hyfforddiant Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG Coleg Cambria. Mae ein cyrsiau sy'n cyd-fynd â diwydiant yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar eich sefydliad i ffynnu yn y farchnad heddiw, sy'n dibynnu ar dechnoleg.**

Bydd gweithio gyda Choleg Cambria yn helpu i baratoi eich sefydliad i fodloni gofynion gweithle sy'n cael ei ysgogi gan ddata a'i alluogi gan AI. Rydym yn darparu'r hyfforddiant rydych ei angen, gan ateb eich gofynion, i gefnogi eich sefydliad i ffynnu.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Hanfodion AI Cynhyrchiol |
| Arwain Digidol |
| Excel a Power BI |
| Seiberddiogelwch a CCNA Cisco |
| Codio Python |
| Hanfodion Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol |

**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion

**Mae trin gwallt a thorri gwallt dynion yn ddiwydiannau byd-eang gwerth biliynau o bunnoedd, sy'n newid byth a beunydd gyda'r tueddiadau. Mae'r ddau'n gallu cynnig gyrfa arloesol a gwerth chweil, lle mae eich swydd chi yw gwneud i bobl edrych a theimlo ar eu gorau. Os yw hynny'n swnio fel rhywbeth yr hoffech chi ei wneud, efallai mai Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion yw'r peth i chi.**

Bydd arbenigwyr diwydiant yn dysgu triciau'r fasnach mewn cyfleusterau salon slic a modern i chi. Byddwch yn defnyddio cynnyrch a chyfarpar o ansawdd uchel, ac yn datblygu eich sgiliau fel eich bod yn darparu'r profiad gorau i'ch cleientiaid bob amser.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
|---|
| Diploma Lefel 2 VTCT mewn Torri Gwallt Dynion (QCF) |
| Estyniadau Gwallt Creadigol VTCT |



**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

# Therapïau Harddwch, Sba a Chyflenwol

**Ydych chi'n greadigol ac yn gyfeillgar? Ydych chi eisiau helpu eraill i edrych yn dda a theimlo'n dda am eu hunain? Os oes gennych chi angerdd am bopeth sy'n ymwneud â harddwch a'r dyhead i ddysgu sgiliau newydd, yna gallai cwrs Harddwch yng Ngholeg Cambria fod yn ddelfrydol i chi.**

Os ydych chi eisiau dysgu sgiliau newydd neu ddod o hyd i hobi newydd, byddwn yn cynyddu eich gwybodaeth fel y gallwch chi helpu eich cleientiaid i edrych (a theimlo) ar eu gorau. Byddwch yn gweithio gyda brandiau cynnyrch moethus yn ein salonau masnachol blaengar, fel eich bod yn barod i fod y gorau yn eich gyrfa o ddewis.

| MAE CYRSIAU'N CYNNWYS: |
| --- |
| Tystysgrif Lefel 3 VTCT (ITEC) mewn Mynediad i Therapïau Esthetig |
| Tystysgrif Lefel 3 VTCT mewn Rheoli ac Arwain y sector Gwallt, Torri Gwallt Dynion a Harddwch |
| Cymhwyster Lefel 4 VTCT mewn Nodwyddo'r Croen |





SBA WRECSAM
iâl
SPA WREXHAM


## Dewch i wella eich iechyd a'ch llesiant yn seintwar ein Sba Iâl Wrecsam

**01978 267614**
info@ialspawrexham.co.uk

**TAPIWCH NEU CLICIWCH YMA**
**i ymweld â'r wefan**

**Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol**





# Twf Swyddi Cymru+

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COLEG CAMBRIA

**Ydych chi'n 16-19 oed ac yn byw yng Nghymru? Yn barod i ennill cyflog, dod yn fwy annibynnol, a chymryd y cam cyntaf yn ar eich llwybr gyrfa?**

**P'un a ydych chi'n chwilio am y swydd iawn, prentisiaeth neu ddarganfod eich cam nesaf mewn addysg, rydyn ni yma i'ch helpu chi i gyrraedd yno.**

Bydd ein rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau personol a goresgyn rhwystrau sy'n eich atal rhag mynd i fyd gwaith neu sicrhau cyflogaeth. Byddwn yn eich helpu i fagu eich hyder, ennill cymwysterau, canolbwyntio ar ddod o hyd i yrfa sy'n iawn i chi a gwella'ch sgiliau llythrennedd a rhifedd.



Byddwch yn mynd ar leoliad gwaith mewn maes y mae gennych ddiddordeb ynddo, a fydd yn eich helpu i nodi'ch llwybr gyrfa.

Byddwch yn cael cefnogaeth trwy gydol eich amser ar y rhaglen gan dîm ymroddedig a chefnogol i'ch helpu i sicrhau dysgu pellach, cyflogaeth neu brentisiaeth.

Bydd y rhaglen yn cynnwys gweithdai amrywiol a fydd yn ymdrin â'r canlynol:

## SGILIAU PERSONOL A CHYMDEITHASOL

- Hyder a sgiliau cyfathrebu
- Agweddau ac ymddygiadau
- Llesiant
- Gwytnwch personol
- Sgiliau trosglwyddadwy e.e. gwaith tîm, gwrando, datrys problemau
- Dinasyddiaeth Brydeinig
- Gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned

## SGILIAU CYFLOGADWYEDD

- Canolbwyntio ar y camau nesaf
- Ymchwilio gyrfaoedd
- Teithiau diwydiant
- Paratoi CV
- Sgiliau cyfweliad
- Rheoli arian
- Entrepreneuriaeth
- Sesiynau rhagflas ar waith

## MEITHRIN SGILIAU

- Datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Iechyd a diogelwch
- Codi a chario
- Sgiliau digidol

I gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch Ymgynghorydd Cymru'n Gweithio, neu cysylltwch â:
**JGWPlus@cambria.ac.uk | 01978 267472**

# ENILLWCH EICH GRADD YNG NGHANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA

CANOLFAN BRIFYSGOL CAMBRIA UNIVERSITY CENTRE

**Mynediad i Addysg Uwch | Graddau | Datblygiad Proffesiynol | Prentisiaethau Uwch a Gradd | Sgiliau Technegol Uwch (HTS)**

**Yng Nghanolfan Brifysgol Cambria, mae ein cyrsiau i gyd wedi'u cynllunio gyda chyflogaeth mewn golwg i wneud y mwyaf o'ch potensial gyrfa.**

Mae mewnbwn cyflogwyr yn sicrhau eich bod yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i lwyddo yn eich gyrfa o ddewis.

Rydym mewn partneriaeth â rhai o brifysgolion a chwmnïau dysgu gorau'r Deyrnas Unedig i gyflwyno'r Addysg Uwch orau yng Ngogledd Cymru.

## EIN CYRSIAU

- Addysgu, Asesu ac Addysg
- Adeiladu a'r Gwasanaethau Adeiladau
- Amaethyddiaeth
- Chwaraeon a Ffitrwydd*
- E-Chwaraeon*
- Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid
- Gofal Plant, Astudiaethau Plentyndod a Gwaith Chwarae
- Gwyddorau Cymdeithasol a Throseddeg
- Iechyd*
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Mynediad i Addysg Uwch
- Peirianneg, Gweithgynhyrchu, a Chynnal a Chadw
- Rheoli ac Arwain Busnes
- Seicoleg a Chwnsela*
- Technolegau Digidol, Cyfrifiadura a TG

*os yw'n cael ei ddilysu

## PRENTISIAETHAU UWCH A GRADD

| | | |
|---|---|---|
| Adeiladu | Cyfrifeg | Gwyddor Data |
| Adnoddau Dynol | Cynghori a Rhoi Arweiniad | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Arlwyo a Lletygarwch | Garddwriaeth | Peirianneg Awyrennau |
| Arwain a Rheoli | Gofal Plant | Peirianneg/Gweithgynhyrchu |
| Ceffyleg | Gweithgynhyrchu Bwyd | TG a Seiberddiogelwch |

**www.cambria.ac.uk/canolfan-brifysgol | 0300 30 30 007 | au@cambria.ac.uk**

BTEC | Liverpool John Moores University | Swansea University Prifysgol Abertawe | Pearson | Prifysgol Wrecsam Wrexham University | Prifysgol Bangor University

# Beth yw Prentisiaeth?

Prentisiaethau Apprenticeships

**Mae prentisiaethau'n rhoi cyfle i chi weithio i gyflogwr, ennill cyflog, cael gwyliau gyda thâl, ac ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Byddwch hefyd yn ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn y gweithle.**

Mae prentisiaethau i bobl 16 oed a hŷn ac i bobl sydd eisoes wedi'u cyflogi, os ydynt yn gymwys. Maent yn datblygu'r wybodaeth a'r gallu ymarferol sydd eu hangen arnoch i wneud eich swydd yn effeithiol. Wrth fod mewn swydd, rydych yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd a hyder personol. Mae prentisiaethau yn ffordd wych o ddechrau ar eich gyrfa ac maent yn agor drysau i ragolygon gwaith cyffrous.

## PRIF FANTEISION:

- **Ennill cyflog**
- **Ennill cymwysterau cydnabyddedig**
- **Hyfforddiant a meithrin sgiliau yn y swydd**
- **Cael gwyliau gyda thâl**
- **Datblygu eich gyrfa**
- **Meithrin sgiliau cyflogadwyedd a hyder**
- **Cyfle i symud ymlaen i brentisiaethau lefel gradd**
- **Buddion coleg, gan gynnwys cerdyn myfyriwr a gostyngiadau.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglen brentisiaeth pob oed, felly gallech chi fod yn gymwys ar gyfer cyfle prentisiaeth i hyfforddi waeth beth fo'ch oedran.

Mae Coleg Cambria yn gweithio gydag ystod eang o gyflogwyr i gefnogi prentisiaethau o Lefel 2 i Lefel 6, mewn dros 400 o wahanol lwybrau, ar gyfer ystod eang o sectorau.

Mae pum lefel o brentisiaethau ar gael, sy'n cymryd rhwng 1 a 4 blynedd i'w cwblhau'n unigol (rhagor os ydych chi'n symud ymlaen trwy'r lefelau). Byddwch yn ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant, profiad gwaith helaeth ac yn ennill cymwysterau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol (ar gyfer cyrsiau penodol).

## SUT MAE GWNEUD CAIS?

Os byddwch yn dod o hyd i swydd, gallwch chi siarad â'ch cyflogwr am ddod yn brentis. Os ydy eich cyflogwr yn cytuno, cysylltwch â thîm Ymgysylltu â Chyflogwyr Cambria ar gyfer Busnes i drafod y broses a dod o hyd i'r brentisiaeth a'r lefel fwyaf addas.

Os nad oes gennych chi swydd yn barod, ewch i'n tudalen prentisiaethau gwag i weld pa gyflogwyr sy'n chwilio am brentisiaid ar hyn o bryd:

**cyflogwyr@cambria.ac.uk**
**0300 30 30 006**

**CLICIWCH YMA**
**i weld ein prentisiaethau gwag**

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS







# Mae Cambria yn cynnig prentisiaethau yn y rhan fwyaf o feysydd galwedigaethol, gan gynnwys:

**CLICIWCH YMA** i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf

- Addysgu, Asesu ac Addysg
- Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau
- Adnoddau Dynol
- Amaethyddiaeth ac Amaethyddiaeth Fanwl
- Blodeuwriaeth
- Busnes, Rheoli ac Arwain
- Ceffyleg
- Cerbydau Modur
- Coedwigaeth a Chefn Gwlad
- Cyfrifeg
- Cyfrifiadura a TG
- Cynghori a Rhoi Arweiniad
- Garddwriaeth a Thirlunio
- Gofal a Rheolaeth Anifeiliaid
- Gofal Plant, Astudiaethau Plentyndod a Gwaith Chwarae
- Gwaith Warws a Logisteg
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid
- Gweinyddu Busnes
- Gweithgynhyrchu Bwyd
- Gwneuthuro a Weldio
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Peirianneg, Gweithgynhyrchu a Chynnal a Chadw
- Technolegau Digidol
- Therapïau Harddwch, Sba a Chyflenwol
- Trin Gwallt a Thorri Gwallt Dynion

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



# Eich cyfle chi i ddysgu Cymraeg gyda ni

# Your opportunity to learn Welsh with us

Dulliau dysgu hyblyg
Flexible learning options



COLEG CAMBRIA

**Coleg Cambria**
Wrecsam / Sir y Fflint / Gweithle
Wrexham / Flintshire / Workplace
**01978 267596**
**dysgucymraeg@cambria.ac.uk**
**learncymraeg@cambria.ac.uk**

Popeth Cymraeg

**Popeth Cymraeg**
Sir Ddinbych
Denbighshire
**01745 812287**
**gwybod@popethcymraeg.cymru**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Gogledd Ddwyrain**
**North East**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

**CLICIWCH YMA**
**i ddod o hyd i'r cyrsiau diweddaraf**

 Darganfyddwch ein cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn trwy **Gyfrif Dysgu Personol** - gweler tudalen 07